GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru
Wales Health Impact Assessment Support Unit

# Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Templed cwmpasu

*Dylid defnyddio'r adnodd hwn yn ystod cam Cwmpasu'r broses HIA. Darperir nodiadau canllaw ar ddiwedd yr adnodd hwn i gefnogi'r gwaith o gwblhau'r cam hwn. Yn ddelfrydol, dylai mwy nag un unigolyn gwblhau'r cam cwmpasu.*

*Mae'r cam cwmpasu'n pennu elfennau rheoli prosiect, llywodraethu, proses, amcanion, ffocws a maint yr HIA. Mae hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r gwerthoedd a'r egwyddorion allweddol sy'n ategu gweithrediad yr HIA gan gynnwys tryloywder, cyfranogiad a gwydnwch.*

**Dyddiad:**

**Cynhaliwyd gan:**

**Teitl a disgrifiad byr o'r polisi, rhaglen, prosiect fydd yn cael ei arfarnu:**

| |
|---|
| |

**Beth yw ffiniau daearyddol y prosiect?**

| |
|---|
| |

**Beth yw'r amserlenni? (A phryd y mae'n rhaid gwneud penderfyniadau hollbwysig?)**

**A ddylech sefydlu Grŵp Llywio a phwy ddylai fod yn rhan ohono?**

**A ddylai'r HIA fod yn ymarfer mewnol neu a ddylid comisiynu rhywun?**

**Pa adnoddau ariannol ac adnoddau dynol sydd eu hangen/ar gael?**

**Beth yw rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n cymryd rhan?**

**Pa fath o HIA sy'n angenrheidiol a/neu'n bosibl yn yr amser sydd ar gael – cyfranogol cyflym neu gynhwysfawr?**

**Pa fath o dystiolaeth fydd yn darparu'r dull adnabod gorau ar gyfer yr effaith bosibl ar y penderfynyddion yn y cam cwmpasu ac ar ba grwpiau o'r boblogaeth? Pa ddulliau a ddefnyddir i gasglu'r dystiolaeth?**

**Pa randdeiliaid y mae angen iddynt gymryd rhan yn y broses?**

**A oes trefniadau sicrwydd ansawdd ar waith? Pwy yw'r unigolyn mwyaf priodol i gynnal yr asesiad sicrwydd ansawdd (mewnol neu allanol)?**

**Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer adolygu'r broses HIA, myfyrio arni a monitro ei dylanwad a'i chanlyniadau?**

*Darperir y templed hwn fel cymorth ac arweiniad yn unig. Mae'r holl gynnwys a roddir a'r penderfyniadau a wneir gan ddefnyddio'r templed yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r sefydliad perthnasol ac nid Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

# Nodiadau Canllaw

## Ffiniau daearyddol

Mae'n bwysig cytuno ar ffiniau daearyddol yr HIA. Mae'n bosibl y bydd effeithiau ar boblogaethau y tu hwnt i'r rheini sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig felly mae'n bwysig gwneud penderfyniad ynghylch lle y byddwch yn pennu unrhyw ffiniau a'r rhesymau dros hyn. Dylech ystyried unrhyw effaith gynyddol bosibl bob tro ac a yw'n berthnasol yn yr asesiad penodol.

## Amserlenni

Mae'n hanfodol pennu'r amserlenni gwneud penderfyniadau ar gyfer y cynnig i sicrhau y bydd cyfle i'r HIA ddylanwadu ar y penderfyniad terfynol.

## Grŵp Llywio

Gall grŵp llywio ddarparu ffordd effeithiol o ddosbarthu tasgau. Bydd y maint yn dibynnu ar hyd a chymhlethdod y prosiect. Gallai mwy na 12 o bobl fod yn anhylaw. Dylech sicrhau fod gennych gynrychiolwyr o blith y rhanddeiliaid allweddol. Mae hyn yn helpu i hybu cyfranogiad ehangach yn y broses, a pherchnogaeth ohoni. Dylech hefyd geisio sicrhau cymysgedd o sgiliau. Gan ddibynnu ar y math o gynnig a'i gymhlethdod, gallai'r sgiliau hyn gynnwys ymrwymiad a datblygiad cymunedau, ymchwil, rheoli prosiectau a dadansoddi polisi.

Mae'n bosibl y byddwch yn dymuno cynnwys pobl â gwybodaeth benodol. Mae hyn yn debygol o gynnwys iechyd cyhoeddus, ond gallai gynnwys gwybodaeth arbenigol yn y gwyddorau cymdeithasol, epidemioleg, iechyd amgylcheddol neu economïau iechyd hefyd. Dylech gofio hefyd fod gan gynrychiolwyr cymunedol fewnwelediadau penodol ynghylch sut y bydd cynigion yn effeithio ar bobl leol.

Mae amseriad pryd y byddwch yn penderfynu sefydlu grŵp llywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Dylech benderfynu ynghylch sefydlu grŵp llywio rhagarweiniol ar ddiwedd y cam sgrinio.

## Cymorth mewnol/wedi'i gomisiynu/ychwanegol

Os bydd yr HIA yn datblygu fel agwedd arferol ar wneud penderfyniadau yna ni ddylai fod angen adnoddau ychwanegol a gellir ei feithrin mewn modd sy'n effeithiol ac effeithlon o ran amser drwy gydweithio. Fodd bynnag, ar gyfer rhai HIAs, mae'n bosibl y bydd angen asesiad dyfnach neu elfen adolygu llenyddiaeth ehangach neu efallai y bydd angen i chi gasglu data lleol newydd. Lle y bydd hyn yn angenrheidiol, efallai y byddwch yn dymuno penodi rhywun i ymgymryd â rhai o'r tasgau dan sylw. Ond bydd cost ynghlwm â hyn. Mae penodi rhywun y tu allan i'r sefydliad yn un opsiwn.

## Adnoddau

Cadarnhewch pa adnoddau sydd ar gael h.y. cyllid ychwanegol a/neu amser pobl. Bydd angen i chi ddatblygu dull sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i chi. .

## Rolau a chyfrifoldebau

Bydd amrywiaeth o dasgau i'w gwneud, a dylid cytuno ar y rhain ar y cam hwn. Gall y rhain gynnwys:

- Arwain yr HIA
- Casglu tystiolaeth a'i harfarnu
- Cadeirio cyfarfodydd
- Tasgau gweinyddol/logistaidd h.y. archebu lleoliadau/gwahoddiadau
- Ysgrifennu adroddiadau
- Dosbarthu'r canfyddiadau
- Monitro a gwerthuso

Bydd angen cytuno ar unrhyw rolau cyffredinol yn y grŵp llywio hefyd fel bod yr aelodau'n glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd aelodau'r grŵp llywio eu hunain yn gyfrifol am ddarparu mynediad i fathau penodol o wybodaeth neu dystiolaeth, neu gefnogi cael mynediad at grwpiau penodol o bobl fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth dechnegol neu ansoddol. Mae disgwyl iddynt adolygu unrhyw fersiynau drafft o'r adroddiad neu'r gyfres o argymhellion terfynol hefyd.

## Proses yr HIA

Mae'n bwysig bod yn agored a thryloyw ac arddangos yn llawn yr hyn sydd wedi'i gynllunio/cyflawni/ystyried, neu beidio, a pham.

Bydd dyfnder eich asesiad yn dibynnu ar yr amserlenni, yr adnoddau sydd ar gael a chymhlethdod y prosiect. Gall asesiadau cyflym gynnwys un cyfarfod â rhanddeiliaid ac adroddiad. Gall asesiadau mwy cynhwysfawr gymryd misoedd i'w cwblhau a gallant gynnwys adolygiadau systematig o lenyddiaeth, casglu data newydd a dadansoddiadau arbenigol.


## Y rhanddeiliaid

Rhanddeiliaid yw'r rheini sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig neu sydd â budd ynddo. Mae ymrwymiad y rhanddeiliaid a'r gymuned yn bwysig i'w galluogi i gyfrannu eu gwybodaeth a'u mewnwelediad fel rhan o'r arfarniad h.y. tystiolaeth ar sail eu profiadau neu wybodaeth. Gallai cynnal dadansoddiad mapio rhanddeiliaid fod yn ddefnyddiol.

Ni ddylid camgymryd rhanddeiliaid am aelodau posibl o'r grŵp llywio a fyddai'n rhan o'r gwaith o oruchwylio neu ymgymryd â thasgau penodol o fewn yr HIA. Gallant fod yn gynrychiolwyr o'r un sefydliad ond byddai'r disgwyliadau a'r ymrwymiad yn wahanol rhwng rhanddeiliad ac aelod o'r grŵp llywio.

## Dulliau i asesu effeithiau a chasglu tystiolaeth

Mae'r HIA yn defnyddio tair elfen o dystiolaeth:




Gan ddibynnu ar natur y cynnig a'r adnoddau a'r amser sydd ar gael, dylai fod gennych ddealltwriaeth sylfaenol o'r dulliau y dymunwch eu defnyddio i asesu'r effeithiau posibl. Bydd yr asesiad yn cael ei hysbysu gan ddata'r boblogaeth leol ac adolygiad o lenyddiaeth/tystiolaeth (lleol, cenedlaethol a rhyngwladol lle y bo'n briodol). Ategir hyn gyda thystiolaeth ansoddol gan randdeiliaid. Gellir cael gafael ar hyn drwy, er enghraifft, gyfarfodydd â rhanddeiliaid, cyfweliadau ag arbenigwyr allweddol, grwpiau ffocws neu arolygon.

Wrth sicrhau / adolygu ansawdd HIA, bydd angen ystyried ehangder a chryfder y dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys pa mor briodol yw'r dulliau a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth h.y. sut y cesglir tystiolaeth gan randdeiliaid. Dylai'r cam cwmpasu amlygu hyn.

## Sicrhau Ansawdd

Gan ddibynnu ar gyd-destun a natur yr HIA, gellir cynnal y broses sicrhau ansawdd yn fewnol gan y prif sefydliad neu gall rhanddeiliaid annibynnol ei chynnal. Gall y cam cwmpasu ddarparu manylion ynghylch natur a phroses y dull sicrhau ansawdd os yw'n briodol. Mae 'Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd HIA' (UGAEIC, 2017) ar gael yma: **https://icccgsib.co.uk/whiasu/adnoddau/**

## Adolygu, myfyrio a monitro

Dylid cynnal adolygiad o HIA a/neu ei fonitro'n rheolaidd. Gall hyn wella'r hyn a ddysgir o'r broses i hysbysu ymarfer yn y dyfodol (proses werthuso); a/neu hysbysu comisiynwyr neu randdeiliaid ynghylch dylanwad yr HIA (gwerthuso'r effaith); neu fonitro sut y mae'r HIA wedi cael effaith (os o gwbl) ar ganlyniadau iechyd a llesiant fel y rhagwelwyd, mewn perthynas â'r penderfynyddion neu'r poblogaethau a nodwyd yn yr HIA fel y rheini yr effeithir arnynt yn benodol (gwerthuso'r canlyniad).

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) **www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/** cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r cynllun yn eiddio i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.